Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

**Rhifyn 344 (Cymru) – 12 Gorffennaf 2023**

## Canllawiau adolygu dosbarth pleidleisio a mannau pleidleisio

Bydd cyfnod adolygu gorfodol nesaf y dosbarth pleidleisio a'r man pleidleisio yn cychwyn ar 1 Hydref 2023, a bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol adolygu eu dosbarthau pleidleisio etholaethol Senedd y DU cyn 31 Ionawr 2025.

Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â chyflwyno ffiniau etholaethau Senedd y DU diwygiedig, sydd bellach wedi'u cyhoeddi gan Gomisiynau Ffiniau Cymru, Lloegr , yr Alban a Gogledd Iwerddon , ac y disgwylir iddynt ddod i rym yn etholiad cyffredinol Senedd y DU nesaf.

I'ch cefnogi i baratoi ar gyfer yr adolygiad a'i gyflawni, rydym wedi ailgyhoeddi ein canllawiau adolygu dosbarth pleidleisio a man pleidleisio hirsefydlog mewn fformat HTML ar y we. Mae'r canllawiau hefyd wedi'u diweddaru, mewn ymgynghoriad â'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda, i gynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyfnod adolygu gorfodol 2023-2025.

## Diweddariad ar ganllawiau

**Deddf Etholiadau 2022 – diweddariadau i ganllawiau i adlewyrchu newidiadau sydd ar ddod**
Fel y nodir ym Mwletin 342 , rydym yn y broses o ddiweddaru ein harweiniad craidd i'ch helpu i gyflawni cam nesaf y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Etholiadau 2022.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein hail adnodd canllawiau ystyriaethau cynllunio allweddol, i'ch cefnogi yn eich paratoadau i gyflawni'r mesurau hyn, a gallwn yn awr roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ein dull o ddarparu'r canllawiau craidd. Unwaith eto, rydym yn mynd ati fesul cam i wneud hyn, i adlewyrchu'r drefn y disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddod i rym a phryd y bydd angen ichi gymryd camau i'w rhoi ar waith.

Mae ein ffocws cychwynnol ar y canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r newidiadau i bleidleisio absennol, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau ar-lein. Ein bwriad yw

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Canllawiau adolygu dosbarth pleidleisio a mannau pleidleisio**

Gwybodaeth a dolen i'n canllawiau adolygu dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio.

**Diweddariad ar ganllawiau**

Diweddariad ar gynlluniau'r Comisiwn ar gyfer canllawiau ar gyfer cam nesaf y newidiadau i Ddeddf Etholiadau 2022 ac etholiadau Mai 2024.

**Etholiadau llywodraeth leol: ffurflenni enwebu**

Gwybodaeth a dolen i ffurflenni enwebu diwygiedig ar gyfer etholiadau prif ardal a chynghorau cymuned.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y**

cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn dechrau mis Medi cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar 31 Hydref 2023.

Yna rydym yn disgwyl cyhoeddi diweddariadau i'r canllawiau ERO craidd i gefnogi'r newidiadau i hawliau pleidleisio etholwyr tramor ym mis Tachwedd 2023, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Ionawr 2024.

Byddwn hefyd yn cynhyrchu canllawiau newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r broses Cadarnhau ac Adolygu Cofrestru (RCR) ar gyfer dinasyddion yr UE, o ganlyniad i'r newidiadau i hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE. Disgwyliwn gyhoeddi'r canllawiau erbyn diwedd y flwyddyn hon, cyn i'r broses gychwyn ar ôl mis Mai 2024.

Bydd y diweddariadau i'r canllawiau sy'n ofynnol o ganlyniad i'r mesurau eraill, megis ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd, newidiadau i'r gofynion enwau a ddefnyddir yn gyffredin a newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE, yn cael eu cynnwys mewn diweddariadau i ganllawiau craidd RO wrth baratoi ar gyfer y Etholiadau Mai.

**Canllawiau ar gyfer etholiadau Mai 2024**
Rydym hefyd yn awr yn gweithio ar ddiweddaru ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) a drefnwyd ar gyfer Mai 2024.

Bydd y gyfres lawn o ganllawiau craidd ar gyfer yr holl etholiadau a drefnwyd ym mis Mai 2024 yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2023, a bydd adnoddau ategol yn dilyn ar sail dreigl.

Rydym yn adolygu'r adborth a gawsom ar ôl etholiadau Mai 2023 ar y Ffurflen Gwerthuso Adnabod Pleidleiswyr (VIDEF) a byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru gyda'r adnoddau ar gyfer etholiadau Mai 2024.

Yn olaf, byddwn yn cyhoeddi'r Llawlyfr Gorsafoedd Pleidleisio wedi'i ddiweddaru ym mis Chwefror 2024, yn unol â'n hamserlenni arferol, a byddwn yn dosbarthu copïau caled i chi cyn yr etholiadau, yn dilyn ein proses archebu arferol a gwblheir yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar hyn, neu os ydych angen unrhyw gefnogaeth bellach, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Etholiadau llywodraeth leol: ffurflenni enwebu

Rydym wedi cyhoeddi ffurflenni enwebu diwygiedig ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau prif ardal a chynghorau cymuned.

Mae'r diwygiadau'n ystyried y gwaith a wnaed gan is-grŵp Enwebiadau Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru (WECB) yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.

Mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

**Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

- mae nodiadau canllaw wedi'u cynnwys wrth ymyl pob adran y mae angen ei chwblhau
- rhifau tudalennau wedi'u hychwanegu
- mae'r rhestr wirio wedi'i rhannu'n dablau ar wahân i'w gwneud yn haws ei defnyddio
- mae fformatio wedi'i wella i'w wneud yn gliriach ac yn haws i'r ymgeisydd/asiant ei gwblhau

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023